Adroddiad i'r: Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad y Cyfarfod 4 Hydref 2019

Aelod / Swyddog Arweiniol: Cynghorydd Richard Mainon / Gary Williams (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd)

Awdur yr Adroddiad: Steve Price (Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd)

Teitl Diogelwch Personol Cynghorwyr

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Nod yr adroddiad ydi rhoi gwybodaeth ac arweiniad i aelodau am ymgymryd â'u rolau'n ddiogel.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae gan aelodau o'r Cyngor Sir broffiliau cyhoeddus yn eu wardiau ac ar draws y sir. Weithiau mae angen iddynt gymryd rhan mewn penderfyniadau anodd a dadleuol a rhyngweithio'n rheolaidd gydag aelodau'r cyhoedd, yn aml yn wyneb yn wyneb, ar ystod o faterion a phroblemau.

Yn gyffredinol mae'r cysylltiadau hyn yn gadarnhaol neu'n ddiwrthwynebol ac yn gyffredinol mae rôl cynghorydd yn cael ei ystyried yn un gwerthfawr. Mae achosion o drais yn erbyn ffigurau cyhoeddus yn brin ond fe allai eu proffil a'u rolau cyhoeddus ddenu camdriniaeth, aflonyddu a phryder am drais. Felly mae'r Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth am faterion diogelwch personol ar gyfer cynghorwyr.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried y canllaw sydd ar gael ar ddiogelwch personol ar gyfer cynghorwyr, a'i weithredu yn Sir Ddinbych.

4. Manylion yr adroddiad

Er yn cydnabod bod y tebygolrwydd y bydd cynghorydd yn profi digwyddiadau peryglus neu ddigwyddiad sy'n peri gofid yn isel iawn, mae yna nifer o achosion lle gallai ymwybyddiaeth o risg a materion diogelwch personol fod yn gynorthwyol neu'n galonogol. Mae'r rhestr ganlynol yn cynrychioli meysydd posibl o risg y gallai'r Pwyllgor roi sylw arnynt:

- Ymweld â phobl yn eu cartrefi
- Derbyn pobl draw i'ch cartref
- Cynnal cymorthfeydd
- Derbyn negeseuon maleisus neu niwsans ar y ffôn neu ar-lein
- Delio ag etholwyr emosiynol
- Teithio
- Cyfathrebu ar-lein
- Canfasio o ddrws i ddrws

Gall gweithio ar eich pen eich hun waethygu'r perygl sy'n gysylltiedig â nifer o'r meysydd a nodwyd uchod, megis cynnal cymorthfeydd ar eich pen eich hun mewn adeilad gwag neu ymweld ag etholwr yn eu cartref. Mae gan y Cyngor weithdrefnau i weithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ar y Fewnrwyd sydd yn berthnasol i staff ac aelodau.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi llunio canllaw sy'n benodol i gynghorwyr a allai gyd-fynd â'r canllawiau penodol i weithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain. Mae atodiad 1 yn ddyfyniad o ganllaw Cyngor Abertawe. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyhoeddi 'Canllaw i Gynghorwyr i Ddelio â Chamdriniaeth Ar-lein', ac mae ynghlwm yn atodiad 2.

Mae gan Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh ystod o nodiadau canllaw am ddiogelwch personol gan gynnwys canfasio ac ymgyrchu, delio â thrais, gweithio ar eich pen eich hun, trosedd casineb a larymau personol allai fod yn ddefnyddiol i gynghorwyr wrth iddynt ymgymryd â'u rôl fel cynghorwyr neu'n ymgyrchu neu'n gweithio ar ran plaid wleidyddol. Mae'r rhain ar gael trwy glicio ar y ddolen: Canllawiau Suzy Lamplugh.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r adroddiad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau cost ar gyfer yr adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Dim. Comisiynwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oedd angen datganiad ganddo ar gyfer yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r adroddiad yma'n ymdrin â risgiau i ddiogelwch personol aelodau a'r mesurau i liniaru'r risgiau hynny.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes angen penderfyniad.